Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

FIN(6)-01-26 PTN 24

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

13 Ionawr 2026

Annwyl Peredur,

**Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch i chi am eich adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau).

Mae nifer o argymhellion wedi'u cyfeirio at y Cwnsler Cyffredinol, ond gyda'r bwriad y bydd hi'n ymgynghori â Chomisiwn y Senedd a chyrff eraill er mwyn eu cyflawni. Yn amodol ar safbwynt y Cwnsler Cyffredinol, bydd Comisiwn y Senedd yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru mewn modd adeiladol er mwyn mireinio'r amcangyfrifon cost yn ystod taith y Bil.

Fodd bynnag, mae Argymhelliad 3 wedi cael ei gyfeirio'n benodol at Gomisiwn y Senedd. Mae ymateb wedi'i nodi isod:

> **Argymhelliad 3: "Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn sefydlu llinell wariant ar wahân yn ei ddogfennaeth gyllideb flynyddol ar gyfer costau aelodau lleyg, ac y gellir ei adnabod yn glir, er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder."**
>
> **Ymateb: Derbyn.**
>
> Bydd Comisiwn y Senedd yn ceisio cyflawni'r argymhelliad hwn, gan ystyried mai mater i'r Senedd fydd penderfynu a ddylid penodi aelodau lleyg, ac os felly, sawl un. Bydd swyddogion y Comisiwn yn ystyried beth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer yr amcangyfrif a ble bydd y gyllideb yn eistedd.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English